

# Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol – Canllawiau Ychwanegol

## Cynnwys

Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol – Canllawiau	
Ychwanegol .....	1
Canllawiau Ychwanegol – Cyflwyniad.....	2
1. Crynodeb y Cyfarwyddwr .....	4
2. Yr Adran Cyd-destun .....	4
Arweinyddiaeth .....	5
Y Gweithlu .....	5
Adnoddau ariannol.....	5
3. Yr Adran Asesu Perfformiad .....	6
Pobl .....	7
Atal .....	8
Partneriaeth ac Integreiddio .....	9
Llesiant .....	9
4. Yr Adran Gwybodaeth Arall.....	10
Archwiliadau ac adolygiadau.....	10
Cwynion a sylwadau .....	11
Ffynonellau gwybodaeth eraill.....	11
Atodiadau .....	12
Atodiad A – Rhestr Termu.....	12
Atodiad B – Cwestiynau Cyffredin.....	16
Atodiad C – Astudiaethau Achos Enghreifftiol .....	19

## Canllawiau Ychwanegol – Cyflwyniad

Bwriad y ddogfen hon yw helpu i lunio Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol. Nodir strwythur yr adroddiad yn Rhan 8 y Cod Ymarfer. Mae tudalennau 12-15 [Adroddiad blynyddol cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol \(llyw.cymru\)](#) yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer llenwi pob rhan o'r adroddiad.

Felly, **rhaiddilyn y penawdau a'r strwythur**, ond bydd modd i awdurdodau lleol unigol benderfynu ar y naratif a'r cynnwys. Bwriad y canllawiau isod yw cynorthwyo swyddogion drafftio i wybod beth i'w gynnwys ym mhob adran.

Diben yr adroddiad yw cynnig trosolwg o berfformiad yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n cynnig hunanasesiad naratif sy'n ychwanegu cyd-destun at y data perfformiad a'r data gweithgarwch a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

Bydd y ddogfen gyfan yn cael ei chyhoeddi ar wefan y cyngor. O'r herwydd, wrth lunio'r adroddiad, cofiwch ystyried yr iaith a ddefnyddiwch. Dylid cynnwys iaith 'bob dydd' a dylid osgoi jargon pan fo modd. Defnyddiwch iaith glir a hawdd ei deall trwy'r adroddiad, hyd yn oed yn yr adrannau na chânt eu hysgrifennu ar gyfer y cyhoedd. Dylai pobl o wahanol gefndiroedd allu darllen yr adroddiad, a dylid gallu ei ddarllen gyda rhaglenni darllen sgrin ac ati. Gellir dod o hyd i ganllawiau ysgrifennu yn y Cwestiynau Cyffredin (Atodiad B).

Hefyd, dylid defnyddio'r ddogfen yn fewnol drwy gydol y flwyddyn fel rhan o waith blaenoriaethu a chynllunio busnes parhaus. Mae'n creu atebolrwydd, oherwydd bydd modd myfyrio ar y blaenoriaethau a'r ffocws ar gyfer pob blwyddyn yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr adroddiad hwn yw'r prif bwyntiau pwysig, yn hytrach na chynnwys disgrifiad llawn o holl weithgareddau'r awdurdodau lleol. Wrth gwrs, gellir rhoi gwybodaeth ychwanegol i ddarllenwyr â diddordeb, ond rhaid i'r adroddiad hwn fod yn grynodeb.

Er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu, cewch eich annog i ddefnyddio dolenni sy'n arwain at adroddiadau eraill lle cynhwysir rhagor o wybodaeth. Ond rhaid dangos yn glir beth yn union yw'r ddogfen y cyfeirir ati yn y ddolen a dylid cynnwys crynodeb byr o'r pwyntiau allweddol a gynhwysir yn y ddogfen honno. Er enghraifft, os byddwch yn cynnwys dolen ar gyfer adroddiadau cwynion, dylid nodi rhai o'r prif ffigurau ac ambell bwynt a ddysgwyd.

**Rhaid i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol** gymeradwyo'r adroddiad terfynol. Rhaid i'r adroddiad fod yn gywir ac yn addysgiadol ar gyfer amrywiaeth o randdeiliaid a chynulleidfaoedd. Hefyd, rhaid iddo dynnu sylw at y modd mae'r adran gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl a'r modd mae hefyd yn cyd-fynd â strwythur a threfniadau llywodraethu cyffredinol yr awdurdod lleol.

Mae astudiaethau achos yn ffordd effeithiol o dynnu sylw at yr effaith a gaiff gwasanaethau ar unigolion. Gall astudiaethau achos ychwanegu dyfnder at yr adroddiad, ond rhaid iddynt fod yn gryno ac yn effeithiol. Fodd bynnag, gall gorddefnyddio astudiaethau achos arwain at hepgor gwybodaeth, a hefyd gall beri i'r adroddiad fynd yn rhy hir. Felly, cynhwyswch astudiaethau achos yn yr adroddiad, ond ceisiwch ystyried ble yn union y byddant yn ychwanegu gwerth ystyrlon at yr adroddiad ac yn dangos yr effaith a gafwyd. Gellir dod o hyd i ganllawiau ar ddefnyddio a llunio astudiaethau achos yma: [Guide to case studies - NHS Evaluation Toolkit](#)

Cynhwyswch restr o dermau arbenigol ac acronymau (Atodiad A). Dylai'r eirfa hon nodi'r gwasanaethau a'r swyddogaethau amrywiol a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Wrth lunio'r

eirfa, gwnewch yn siŵr y bydd modd i bobl heb wybodaeth flaenorol neu arbenigol am wasanaethau cymdeithasol ei darllen a deall yr hyn a ddarperir gan bob gwasanaeth.

Hefyd, gellir cynnwys rhywfaint o ddyfyniadau, oherwydd gallant gyfleu llais y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Gellir defnyddio lluniau, diagramau ac animeiddiadau, ond dylid osgoi defnyddio ffotograffau o bobl. Os byddwch yn defnyddio dyfyniadau, rhaid cael caniatâd ymlaen llaw i'w defnyddio a rhaid sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir.

Pwynt cyffredinol y dylid ei gadw mewn cof yw y dylai'r adroddiad ganolbwyntio ar ganlyniadau ac effeithiau lleol, yn hytrach na chanolbwyntio ar brosesau a gweithgareddau. Dylai'r adroddiad geisio disgrifio'r gwahaniaeth a wna gwaith yr awdurdod lleol i fywydau pobl.

## 1. Crynodeb y Cyfarwyddwr

Trosolwg o berfformiad ar ffurf y gellir ei defnyddio mewn fersiwn ar wahân o'r adroddiad a lunnir ar gyfer y cyhoedd.

- Cyflwyniad gan y Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwyr
- Tynnu sylw at gyflawniadau, heriau, blaenoriaethau ac amcanion cyffredinol ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Disgrifio'r themâu a'r materion allweddol sydd bwysicaf i ardal yr awdurdod lleol
- Cyflwyno barn y Cyfarwyddwr/Cyfarwyddwyr ynglŷn â gallu'r awdurdod lleol i fodloni cyfrifoldebau statudol
- Nodi'r risgiau a'r heriau a wynebir yn y dyfodol
- Mynd ati o bosibl i sganio'r gorwel ar gyfer cyfleoedd a phosibiliadau yn y dyfodol.

Dylai'r adran hon fod yn gryno ac ni ddylai ddyblygu testun a gynhwysir mewn adrannau eraill yn nes ymlaen.

## 2. Yr Adran Cyd-destun

Dim ond **crynodebau byr** o'r wybodaeth y dylid eu cynnwys.

Gellir cyfeirio at ddogfennau cyhoeddedig eraill os cynhwysir cyfeiriad neu ddolen electronig.

Ceir data perthnasol ynglŷn â lefel y gweithgarwch yma: [Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol \(llyw.cymru\)](#). Gellir cyflwyno'r data mewn gwahanol fformatau, ond argymhellir y dylid cynnwys yr eitemau canlynol:

- AD/001 – [Nifer y cysylltiadau a gafwyd ar gyfer oedolion](#)
- AD/002 – [Cyngor neu gymorth a ddarparwyd i oedolion](#)
- AD/004 – [Aseidiadau a gwblhawyd ar gyfer oedolion](#)
- AD/005 – [Anghenion cymwys ar gyfer oedolion](#)
- AD/012 – [Cynlluniau gofal a chymorth i oedolion](#)
- CH/001 – [Nifer y cysylltiadau a gafwyd ar gyfer plant](#)
- CH/002 – [Cyngor neu gymorth a ddarparwyd i blant](#)
- CH/006 – [Aseidiadau a gwblhawyd ar gyfer plant](#)
- CH/007 – [Anghenion cymwys ar gyfer plant](#)
- CH/015 – [Cynlluniau gofal a chymorth i blant](#)

Bydd y data hwn yn helpu i gyflwyno lefel gyffredinol y gweithgareddau a'r darpariaethau a gyflwynir gan yr awdurdod lleol drwy gydol y flwyddyn.

Efallai hefyd y bydd yn helpu i gysylltu'r gwasanaethau a ddarperir â'r trefniadau ariannol a'r pwysau cyllidebol a ddaw i ran yr awdurdod lleol.

Ymhellach, byddai'n fuddiol disgrifio sut fath o waith a ariennir mewn perthynas ag atal ac ymyrraeth gynnar, ynghyd â lefel y ddarpariaeth gyffredinol a roddir i bobl sydd angen cymorth. Efallai hefyd y ceir rhaglenni newid (cenedlaethol, rhanbarthol neu leol) neu fodolau gofal na chânt eu cyfleu mewn data cenedlaethol, a byddai'n fuddiol eu disgrifio yn y fan hon.

## Arweinyddiaeth

### Hyd at un dudalen yn ddefnyddol

Rhaid cynnwys crynodeb naratif byr o'r canlynol ar gyfer yr awdurdod lleol:

- arweinwyr gwleidyddol ac uwch-arweinwyr (dylai'r adran hon fod yn fyr)
- strwythur rheoli'r gwasanaethau cymdeithasol
  - Siart sefydliadol o bosibl
- Trefniadau llywodraethu, craffu a herio
  - O bosibl gydag elfen weledol yn nodi'r cylch perfformio o ran y modd mae Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â gwaith cynllunio cyfarwyddiaethau a gwaith adrodd am berfformiad

## Y Gweithlu

### Hyd at un dudalen yn ddefnyddol

- Crynodeb byr o weithlu'r awdurdod lleol
  - nifer y staff
  - cyfraddau swyddi gwag
  - y prif heriau o ran staffio dros y flwyddyn
- Disgrifiwch gyfansoddiad y gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol a'r gwasanaethau a gomisiynir
- Diweddariadau am drosiant staff a newidiadau mewn staff
- Heriau allweddol, yn cynnwys swyddi gwag, salwch a recriwtio/cadw staff
- Cymorth a roddir i staff – llesiant, meddyliol a chorfforol
- Datblygiad proffesiynol
- Efallai y byddai'n fuddiol cyfeirio at y data a gasglodd Gofal Cymdeithasol Cymru am y gweithlu
  - [Arolwg Dweud Eich Dweud | Gofal Cymdeithasol Cymru](#)
  - [Data a gwybodaeth am y gweithlu gofal cymdeithasol | Gofal Cymdeithasol Cymru](#)

## Adnoddau ariannol

### Hyd at un dudalen yn ddefnyddol

Dylai'r adran hon gynnwys y canlynol:

- Tabl yn dangos prif incwm a gwariant yr adran gwasanaethau cymdeithasol. Efallai y byddai'n fuddiol cyfeirio at y data ariannol a gyhoeddir ar StatsCymru: [Gwasanaethau cymdeithasol](#)
- Dylid hollti'r wybodaeth yn wahanol feysydd:
  - Plant
  - Oedolion oedran gweithio
  - Oedolion hŷn
- Crynodeb o newidiadau yn y sefyllfa ariannol ers y llynedd
  - Cynhwyswch ffigurau allweddol, fel gorwariant a phwysau

### **3. Yr Adran Asesu Perfformiad**

Mae'r adran hon yn gofyn ichi hunanasesu eich perfformiad o dan bedwar pennawd, sef: Pobl, Atal, Partneriaeth ac Integreiddio, a Llesiant. Yr adran hon ar asesu perfformiad yw hunanasesiad yr awdurdod lleol o'i wasanaethau cymdeithasol.

**Mae gan bob adran ddwy safon ansawdd a dylai'r ymatebion i gwestiynau'r hunanasesiad geisio mynd i'r afael â'r ddwy safon ar yr un pryd.** Ni ofynnir am asesiad o bob safon ansawdd unigol.

Dylai'r hunanasesiad hwn ganolbwyntio'n benodol ar adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, h.y. y modd y darperir gwasanaethau cymdeithasol ym mhob awdurdod lleol. Y bwriad yw y bydd yr adroddiadau hyn, sy'n canolbwyntio ar wasanaethau cymdeithasol, yn integreiddio â'r adroddiad hunanasesu corfforaethol sy'n ofynnol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'r cwestiynau hunanasesu a ddefnyddir isod yr un fath â'r cwestiynau a ddefnyddir yn yr hunanasesiad corfforaethol.

**Dylai'r hunanasesiad fynd ati i werthuso, gan ddefnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol.** Dylid rhoi pwyslais ar hunanasesu, yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar ddisgrifio'r hyn a ddarperir. Gellir defnyddio tystiolaeth o wahanol ffynonellau e.e. data perfformiad gweithredol, ymchwil, arolygon, digwyddiadau ymgysylltu, ymgynghoriadau a phaneli dinasyddion. Bydd modd i astudiaethau achos ychwanegu treiddgarwch yn y fan hon.

Os dyfynnir unrhyw ddata a nodir yn y fframwaith [Mesur Gweithgarwch a Pherfformiad](#), dylid cyflwyno cyd-destun digonol e.e. a yw'r duedd yn gwella ynteu'n dirywio? Pam? Pa bethau a wneir i achosi hyn/mewn ymateb iddo?

Efallai y bydd ambell ddeunydd yn ymwneud â mwy nag un o benawdau'r safonau ansawdd isod. Os felly, dylai awdurdodau lleol gynnwys y deunydd o dan y pennawd mwyaf priodol. Pan fo angen, dylid croesgyfeirio er mwyn osgoi ailadrodd mewn gwahanol adrannau.

**Ceisiwch ateb pob cwestiwn yn gryno ac yn glir.** Mae hyblygrwydd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn addysgiadol a'i fod yn adrodd stori. Yn ddelfrydol, dylai'r adran hon yn ei chyfanrwydd fod oddeutu 20 tudalen o hyd, gan ymdrin â gwasanaethau oedolion, gwasanaethau plant a'r wyth safon ansawdd. Y nod yw cyflwyno adroddiad hygyrch; felly o ran hyd, dylai'r adroddiad fod yn gryno ar y naill law ond dylai ddarparu digon o fanylion ar y llaw arall.

**Gellir hollti'r adrannau'n wasanaethau plant ac yn wasanaethau oedolion neu gellir cyfuno'r gwasanaethau ar ffurf un asesiad.** Os ymdrinnir â'r gwasanaethau ar wahân, gellir cynnwys y meysydd hynny sy'n croesi gwasanaethau, megis pontio, ar ffurf adran ar wahân, neu gellir eu cynnwys ar ddiwedd yr hunanasesiad gwasanaethau plant, cyn i'r hunanasesiad oedolion ddechrau. Yna, gellir disgrifio sut mae'r maes o dan sylw yn berthnasol i'r adran oedolion. Wedyn, bydd modd i'r adran oedolion gysylltu'n ôl â'r wybodaeth honno, pan fo'n berthnasol.

Darllenwch y [canllawiau statudol](#) i gael manylion am y pethau y dylid eu cynnwys ym mhob adran.

Ni fydd yn rhaid trefnu'r adrannau hyn ar sail y cwestiynau a nodir, cyn belled ag y byddwch yn cynnig atebion uniongyrchol i'r cwestiynau unigol.

Rhaid i bob adran ymdrin â'r camau gweithredu a'r blaenoriaethau a nodwyd yn adroddiad y flwyddyn flaenorol. Gellir disgrifio sut cafodd y camau a'r blaenoriaethau hynny eu cyflawni a sut fath o effaith a gawsant. Fodd bynnag, efallai na lwyddwyd i'w gwireddu, a rhaid nodi hynny hefyd gan drafod pam a chan nodi'r camau nesaf.

Y peth pwysig i'w wneud yn y fan hon yw ystyried yr hyn a ddengys y dystiolaeth ynglŷn â'r modd y caiff y canlyniadau eu cyflawni a'r modd mae'r gwasanaethau a ddarperir yn diwallu anghenion pobl. Nid cyflwyno data yw'r unig nod – dylid trafod yr hyn a ddaw wedyn hefyd. Disgrifiwch y gwahaniaeth a wna'r gwasanaethau i fywydau pobl.

**Rhaid i bob awdurdod lleol gynnwys y testun naratif isod ar ddechrau'r adran Asesu Perfformiad er mwyn dangos mai'r safonau hyn yw'r safonau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i'w hasesu eu hunain. Gellir cynnwys testun ychwanegol yn y fan hon, ond disgwylir ichi nodi'r isod ar y dechrau.**

***Mae'r adran hon yn gofyn i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r wyth safon ansawdd o dan bedair adran. Caiff yr asesiad hwn ei gwblhau ar gyfer gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion ac mae'n disgrifio sut anelodd yr awdurdod lleol at gyflawni'r safonau hyn drwy gydol y flwyddyn.***

***Mae'r dull hunanasesu yn gofyn i awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r pedwar cwestiwn canlynol:***

- ***Beth ydym yn ei wybod am ansawdd ac effaith yr hyn a wnawn?***
- ***Sut ydym yn gwybod? E.e. pa dystiolaeth a ddefnyddiwn i lywio'r asesiad hwn – sef tystiolaeth sy'n deillio o ymchwil, ymgysylltu a metrigau?***
- ***Beth ydym yn ei wneud yn dda a sut gallwn wneud pethau'n well? Beth yw ein blaenoriaethau ar gyfer gwella, yn arbennig dros y flwyddyn sydd i ddod?***
- ***Pa gynnydd a wnaethom o ran y 'meysydd i'w gwella' a nodwyd yn adroddiad y llynedd? Pa wahaniaeth a wnaethom?***

## **Pobl**

**Dechreuwch yr adran trwy nodi'r safonau ansawdd penodol:**

- ***"Mae pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt"***
  - ***"Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu cymwysedig a hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir".***
- Dyma adran dda ar gyfer cynnwys astudiaethau achos a dangos sut cafodd plant ddewis dros wasanaethau.
  - Bydd modd ystyried hyfforddi a goruchwylio staff yn yr adran hon.
  - Efallai fod newidiadau sefydliadol wedi digwydd i'r trefniadau arwain. Gallwch ddisgrifio sut aethpwyd i'r afael â'r newidiadau hynny a'r modd y llwyddwyd i gynnal arweinyddiaeth trwy'r holl newidiadau.
  - Meddyliwch am y modd y caiff gwahanol gymunedau a phobl o wahanol gefndiroedd eu cynorthwyo. E.e. yr iaith Gymraeg, lleiafrifoedd ethnig.
    - Dylid sôn yn benodol am Mwy Na Geiriau a chynlluniau gweithredu cydraddoldeb perthnasol, megis y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

- Efallai y bydd yr eitemau data canlynol, sy'n deillio o'r [set ddata mesur gweithgarwch a pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol](#), yn fuddiol wrth ymateb i'r adran hon. Ceisiwch ystyried y rhesymau dros newid, effaith y newid a'r canlyniadau 'da'.
  - o CH/016: [Cyfanswm y plant sydd â chynllun gofal a chymorth lle bodlonir anghenion drwy Daliad Uniongyrchol](#)
  - o CH/056: [Cyfanswm y "Cynigion Rhagweithiol" o eiriolaeth i blant yn ystod y flwyddyn](#)
  - o CH/057: [Cyfanswm y "Cynigion Rhagweithiol" o eiriolaeth i blant yn ystod y flwyddyn lle darparwyd Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol](#)
  - o AD/013: [Cyfanswm yr oedolion â chynllun gofal a chymorth lle diwallir yr anghenion drwy Daliad Uniongyrchol](#)
  - o AD/032: [Cyfanswm yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol](#)
  - o AD/033: [Cyfanswm yr oedolion yn ystod y flwyddyn lle nodwyd yr angen am eiriolwr proffesiynol annibynnol ac y darparwyd eiriolwr proffesiynol annibynnol](#)

Nodwch yn glir yr amcanion allweddol a'r camau gweithredu cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod – bydd modd myfyrio ar y rhain ac adrodd amdanynt yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Gellir gwneud hyn mewn tabl, mewn pwyntiau bwled neu mewn naratif, cyn belled ag y nodir yn glir beth yw'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ceisiwch nodi amcanion strategol yn unig, yn hytrach nag amcanion gweithredol.

## Atal

### Dechreuwch yr adran trwy nodi'r safonau ansawdd penodol:

- *"Mae'r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac nid yw anghenion yn cynyddu, gan sicrhau'r **canlyniad** gorau posibl i bobl"*
  - *"Mae **cydnherthedd yn ein cymunedau** yn cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial trwy annog a helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas"*
- Ceisiwch bwysu a mesur sut caiff gofalwyr di-dâl eu hystyried.
  - Beth yw rôl mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a gaiff eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector?
  - Gall gweithgareddau atal gynnwys mesurau eang a anelir at y boblogaeth ehangach, yn ogystal ag ymyriadau penodol ar gyfer unigolion.
  - Efallai y bydd yr eitemau data canlynol, sy'n deillio o'r [set ddata mesur gweithgarwch a pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol](#), yn fuddiol wrth ymateb i'r adran hon. Ceisiwch ystyried y rhesymau dros newid, effaith y newid a'r canlyniadau 'da'
    - o CH/002: [Nifer y cysylltiadau ar gyfer plant a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth](#)
    - o CH/007: [Nifer yr asesiadau newydd a wnaed – CH/007b: Lle'r oedd modd diwallu'r anghenion drwy unrhyw ddull arall](#)
    - o AD/002: [Nifer y cysylltiadau newydd ar gyfer oedolion a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol yn ystod y flwyddyn lle darparwyd cyngor neu gymorth](#)



- AD/005: [Cyfanswm yr asesiadau newydd – AD/005b: Lle'r oedd modd diwallu'r anghenion drwy unrhyw ddull arall](#)
- AD/010: [Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn](#)
- AD/011: [Cyfanswm nifer y pecynnau ailalluogi yn ôl canlyniad](#)

Nodwch yn glir yr amcanion allweddol a'r camau gweithredu cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod – bydd modd myfyrio ar y rhain ac adrodd amdanynt yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Gellir gwneud hyn mewn tabl, mewn pwyntiau bwled neu mewn naratif, cyn belled ag y nodir yn glir beth yw'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ceisiwch nodi amcanion strategol yn unig, yn hytrach nag amcanion gweithredol.

## Partneriaeth ac Integreiddio

**Dechreuwch yr adran trwy nodi'r safonau ansawdd penodol:**

- *“Mae **partneriaethau** effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy a chwbl **integredig** o safon uchel i bobl”*
  - *“Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at gynllunio a darparu eu gofal a'u cymorth fel **partneriaid cyfartal**”*
- Efallai y byddai'n fuddiol disgrifio sut rydych yn gweithio gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a phartneriaid lleol/rhanbarthol eraill.
  - Sut caiff adroddiadau ar Sefydlogrwydd y Farchnad, Asesiadau o Anghenion y Boblogaeth a chynlluniau ardal eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, i gomisiynu ac i lywio cynlluniau ac ati?
  - Meddyliwch am y modd y gellir integreiddio gwasanaethau, megis cydleoli, ymgysylltu â darparwyr/y trydydd sector, cydgynhyrchu ar gyfer darparu a llunio a ffyrdd newydd o weithio gyda phartneriaid.
  - Dylai'r adran hon gyfeirio at unrhyw gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, megis datgarboneiddio, ymaddasu neu gynnal bioamrywiaeth.
  - Hefyd, dylai'r adran hon fynd i'r afael â'r modd mae'r awdurdod lleol yn gweithio tuag at fodloni egwyddorion y [Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth](#).

Nodwch yn glir yr amcanion allweddol a'r camau gweithredu cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod – bydd modd myfyrio ar y rhain ac adrodd amdanynt yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Gellir gwneud hyn mewn tabl, mewn pwyntiau bwled neu mewn naratif, cyn belled ag y nodir yn glir beth yw'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ceisiwch nodi amcanion strategol yn unig, yn hytrach nag amcanion gweithredol.

## Llesiant

**Dechreuwch yr adran trwy nodi'r safonau ansawdd penodol:**

- *“Mae pobl yn cael eu **hamddiffyn** a'u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed”*
- *“Mae pobl yn cael eu helpu i **reoli eu llesiant** a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a **byw'n annibynnol** cyhyd â phosibl”*

- Pa effaith a gaiff yr awdurdod lleol ar lesiant pobl?
- Beth yw'r effaith a'r ymateb i'r cynnydd yn y galw am ofal?
- Trafodwch sut mae'r gwasanaeth a ddarperir yn cael ei lywio gan amgylchiadau personol pobl, galluoedd, rhwydweithiau a chymunedau lleol.
- Disgrifiwch atebion creadigol trwy ddefnyddio astudiaethau achos.
- Gall awdurdodau lleol gyfeirio'n fanylach at adroddiadau gan fyrddau diogelu rhanbarthol ac asiantaethau eraill pan fo hynny'n briodol, a gallant gynnwys dolenni. Unrhyw waith trawsbynciol ochr yn ochr â byrddau diogelu rhanbarthol (a roddir ar waith yn lleol, efallai)?
- Efallai bydd yr eitemau data canlynol, sy'n deillio o'r [set ddata mesur gweithgarwch a pherfformiad gwasanaethau cymdeithasol](#), yn fuddiol wrth ymateb i'r adran hon. Ceisiwch ystyried y rhesymau dros newid, effaith y newid a'r canlyniadau 'da'.
  - o CH/020: [Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth cychwynnol i blant a ddaeth i ben yn ystod y flwyddyn](#)
  - o CH/021: [Nifer y Cyfarfodydd Strategaeth a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i ymholiadau Adran 47](#)
  - o CH/022: [Cyfanswm nifer yr ymholiadau Adran 47 a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn a symudodd ymlaen i Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol](#)
  - o CH/024: [Nifer y plant a ychwanegwyd at y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn: yr holl blant](#)
  - o AD/020: [Cyfanswm nifer yr adroddiadau a gafwyd ynghylch oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl yn ystod y flwyddyn](#)
  - o AD/023: [Cyfanswm nifer yr adroddiadau a gafwyd ynghylch oedolion yr amheuir eu bod mewn perygl lle mae angen gwneud ymholiadau](#)
  - o AD/026: [Cyfanswm nifer yr ymholiadau lle penderfynwyd y dylid cymryd camau ychwanegol](#)

Nodwch yn glir yr amcanion allweddol a'r camau gweithredu cysylltiedig ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod – bydd modd myfyrio ar y rhain ac adrodd amdanynt yn adroddiad y flwyddyn nesaf. Gellir gwneud hyn mewn tabl, mewn pwyntiau bwled neu mewn naratif, cyn belled ag y nodir yn glir beth yw'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Ceisiwch nodi amcanion strategol yn unig, yn hytrach nag amcanion gweithredol.

## 4. Yr Adran Gwybodaeth Arall

### Archwiliadau ac adolygiadau

**Hyd at ddwy dudalen yn ddelfrydol – efallai na fydd y rhan hon yn angenrheidiol os na chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau**

Os yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi llunio adroddiad yn ymwneud â gwasanaethau neu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor yn ystod y flwyddyn adrodd, a wnewch chi gynnwys y canlynol:

- Dolenni'n arwain at adroddiad llawn yr archwiliad
- Dolenni'n arwain at unrhyw ymatebion ysgrifenedig i'r archwiliad, e.e. y materion a aeth gerbron pwyllgorau craffu
- Ymateb i unrhyw gamau allweddol â blaenoriaeth y mae angen cyflwyno gwelliannau iddynt ar frys

- Cynhwyswch grynodedb lefel uchel a fydd yn berthnasol i gynulleidfa ehangach. Bydd gan Arolygiaeth Gofal Cymru fanylion am waith monitro gwelliannau'n ymwneud â'r archwiliadau, felly dylai'r adroddiad hwn grynhoi'r manylion hynny ar gyfer y gynulleidfa.
- Dylid cynnwys y manylion hynny yn ychwanegol at yr wybodaeth a gyflwynir yn yr Adran Asesu Perfformiad. Gellir cyfeirio at gynnwys mewn rhannau eraill o'r adroddiad. Dylid sôn am y pethau y canolbwyntiwyd yn benodol arnynt yng nghanfyddiadau'r archwiliad.

Hefyd, dylai'r adran hon gyfeirio at y modd y bwriedir gweithredu ar sail canfyddiadau ac argymhellion perthnasol sy'n deillio o'r canlynol:

- Adolygiadau thematig cyfnodol a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal Cymru
- Archwiliadau neu gyd-archwiliadau a gynhelir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Estyn (pan fo'n berthnasol)
- Unrhyw adroddiadau perthnasol gan:
  - Archwilio Cymru
  - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  - Y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant.

Ar gyfer yr adroddiadau ehangach hyn, bydd yn dderbyniol ichi gyfeirio'n fyr yn y fan hon at ddogfennau eraill ac arwain y darlennydd ar ddogfennau eraill i gael rhagor o fanylion.

## Cwynion a sylwadau

### Hyd at ddwy dudalen yn ddefnyddol

Cyfeiriwch at adroddiad cwynion blynyddol corfforaethol y Cyngor a chynhwyswch ddolen ar gyfer yr adroddiad. Dylai'r adran hon ymhelaethu ar yr adroddiad hwnnw fel a ganlyn:

- disgrifiwch unrhyw dueddiadau amlwg (sef tueddiadau'n ymwneud â'r gweithlu a hefyd â'r bobl sy'n cael gofal a chymorth), yn cynnwys manylion am y canlynol:
  - a oedd unrhyw gŵyn yn gysylltiedig â nodwedd warchoddedig
  - ffynonellau'r cwynion
  - prif natur y cwynion
- y prif bethau a ddysgwyd yn sgil y cwynion
- pa newidiadau a gwelliannau a wnaed neu a gynigiwyd gan yr awdurdod mewn ymateb i gwynion ac ymchwiliadau
- Cynhwyswch gwynion a sylwadau a gafwyd gan Gorff Llais y Dinesydd

Wrth lunio'r adran hon, ystyriwch y canfyddiadau a'r argymhellion a ddeilliodd o: [Herio penderfyniadau gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru a Lloegr](#)

## Ffynonellau gwybodaeth eraill

### Hyd at un dudalen yn ddefnyddol

Dyma gyfle i awdurdodau lleol gynnwys unrhyw beth nad ymdriniwyd ag ef yn yr adrannau blaenorol.

Gellir cyfeirio at adroddiadau eraill, megis:

- lefel gwasanaethau
- cynlluniau corfforaethol
- cynlluniau busnes ategol
- cynlluniau gweithredu ar yr hinsawdd
- adroddiad ar yr iaith Gymraeg (Mwy Na Geiriau)
- adroddiadau ar Gydraddoldeb Strategol

Byddai'n arfer da cynnwys cyfeiriadau a dolenni electronig pan fo modd dod o hyd i unrhyw ddogfen arall yn y parth cyhoeddus.

## Atodiadau

### Atodiad A – Rhestr Termau

Byddai'n fuddiol cynnwys rhestr termau er mwyn disgrifio'r gwasanaethau, y termau a'r acronymau a allai fod yn anghyfarwydd i bobl sy'n amhrofiadol yn y maes gofal cymdeithasol. Dylai'r disgrifiadau hyn fod yn addas i leygwyr nad ydynt, o bosibl, yn meddu ar unrhyw ddealltwriaeth flaenorol o ofal cymdeithasol.

<b>Termau/Acronymau</b>	<b>Disgrifiadau</b>
Ailalluogi / Adsefydlu / Gofal Interim	Caiff y gofal byrdymor hwn ei alw weithiau'n ofal canolradd neu'n ôl-ofal. Mae gofal ailalluogi yn helpu pobl i aildysgu sut i wneud gweithgareddau beunyddiol, fel coginio prydau bwyd ac ymolchi. Caiff ei ddarparu gan awdurdodau lleol, gyda'r nod o leihau'r angen am ofal a chymorth hirdymor.
Gofal Cartref / Gwasanaeth Cymorth Cartref / Gofal yn y Cartref	Mae gofal cartref, a elwir hefyd yn "gofal yn y cartref", yn cyfeirio at amrywiaeth eang o wasanaethau gofal a ddarperir yng nghartref yr unigolyn. Gall gynnwys cymorth gyda byw o ddydd i ddydd a rhai materion gofal iechyd ar gyfer yr henoed.
Cartrefi Gofal Preswyl / Cartrefi Nyrsio	Mae cartrefi gofal preswyl yn darparu llety, cymorth a gofal personol 24 awr i bobl hŷn a phobl eraill sy'n cael anhawster i fyw eu bywyd beunyddiol yn eu cartrefi. Mae cartrefi gofal preswyl a chartrefi nyrsio yn darparu cymorth a gofal 24 awr y dydd. Y prif wahaniaeth yw bod cartrefi nyrsio yn gallu darparu gofal ar lefel uwch. Mewn cartrefi nyrsio, ceir nyrsys cymwysedig ar y safle drwy'r amser er mwyn iddynt allu darparu gofal meddygol fel bo'r angen; mae cartrefi gofal preswyl yn helpu pobl gyda gofal personol ac yn eu cynorthwyo i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol.
Plant â Phrofiad o Fod Mewn Gofal	Mae 'profiad o fod mewn gofal' yn derm ambarél a all gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Plant / pobl ifanc sy'n derbyn gofal trwy gyfrwng Gorchymyn Gofal</li> <li>• Plant / pobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn tai plant preswyl, mewn lleoliadau maeth</li> </ul>

	<p>neu gyda gofalwyr sy'n berthnasau (plant / pobl ifanc sy'n derbyn gofal neu blant / pobl ifanc nad ydynt yn derbyn gofal)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Plant / pobl ifanc a arferai dderbyn gofal yn y gorffennol ac a gafodd unrhyw un o'r profiadau uchod ar ryw adeg yn eu bywydau. Efallai na dderbyniodd y plant / pobl ifanc ofal ffurfiol erioed.</li> </ul>
Pobl sy'n Gadael Gofal	<p>Yng Nghymru, mae pobl sy'n gadael gofal yn golygu unigolion sydd wedi bod yng ngofal yr awdurdod lleol am 13 wythnos o leiaf ers iddynt gyrraedd 14 oed, ac sydd wedi gadael gofal ar, neu ar ôl, eu pen-blwydd yn 16 oed. O ran y math o gymorth a roddir i bobl sy'n gadael gofal, bwriedir iddo fod yn gyfwerth â'r hyn y disgwyliad i blant nad ydynt yn derbyn gofal ei gael gan eu rhieni.</p>
Plant sy'n Derbyn Gofal	
Diogelu	<p>Mae a wnelo diogelu ag amddiffyn plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, ynghyd ag addysgu'r bobl o'u cwrpas sut i adnabod yr arwyddion a'r peryglon.</p>
Gweithdrefnau Diogelu Cymru	<p>Maent yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau hanfodol sy'n berthnasol i ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod yn diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys rhestr o dermau defnyddiol: <a href="#">Diogelu Cymru</a></p>
<a href="#">Fframwaith Perfformiad a Gwella: Data mesur gweithgarwch a pherfformiad</a>	<p>Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys metrigau ar gyfer oedolion, plant a gofalwyr, sef metrigau y mae'n rhaid eu casglu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â data ar lefel unigolion a data cyfanredol yn ymwneud ag agweddau penodol ar ofal cymdeithasol. Hefyd, mae'r fframwaith yn nodi y dylai awdurdodau lleol gasglu eu data eu hunain er mwyn deall yn well sut mae'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol yn gweithio yn unol â blaenoriaethau lleol.</p>
Arolygiaeth Gofal Cymru	<p>Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r rheoleiddiwr ar gyfer darparwyr gofal cymdeithasol. Bydd yr Arolygiaeth yn cofrestru, yn archwilio ac yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er lles pobl Cymru.</p>
Gofal Cymdeithasol Cymru	<p>Gofal Cymdeithasol Cymru yw rheoleiddiwr y gweithlu. Fel rhan o'i waith, mae'r sefydliad yn cofrestru gweithwyr gofal a chymorth ac yn gosod safonau ar eu cyfer. Hefyd, mae cylch gwaith y sefydliad yn cynnwys cyflwyno gwelliannau, a bydd yn</p>

	rhannu arferion da, yn gosod blaenoriaethau ymchwil ac yn darparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd a sefydliadau eraill.
Preswylwyr / Dinasyddion	Unigolion sy'n preswylwyr fel arfer oddi mewn i ffiniau'r awdurdod lleol.
Defnyddwyr Gwasanaethau	Unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau cymdeithasol.
Cynlluniau Cysylltu Bywydau / Lleoli Oedolion	Cynlluniau Cysylltu Bywydau – fe'u gelwir hefyd yn gynlluniau lleoli oedolion. Mae'r cynlluniau hyn, sy'n seiliedig ar deuluoedd, yn cefnogi anghenion tai unigolion agored i niwed.  Gall lletyau cefnogol o'r fath fod yn gam delfrydol ar gyfer helpu unigolion i fyw'n annibynnol. Caiff y trefniant ei alw'n aml yn drefniant 'cysylltu bywydau'.
Taliadau Uniongyrchol	Rhoddir taliadau uniongyrchol i unigolion i'w galluogi i dalu am eu gofal eu hunain. Dyma ffordd y gall awdurdodau lleol helpu i ddiwallu anghenion cymwys unigolion am ofal a chymorth, neu anghenion gofalwr am gymorth. Mae taliadau uniongyrchol yn galluogi pobl i drefnu eu gofal a'u cymorth eu hunain.
Byw â Chymorth / Llety â Chymorth	Mae llety byw â chymorth yn darparu gofal personol, cymorth neu oruchwyliaeth er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol. Mae'r gofal a'r cymorth hwn yn elfen ar wahân i'r contract tai. Gall y llety fod yn llety a rennir neu'n llety sengl, gan ddibynnu ar anghenion a dewisiadau'r preswylwyr.
Gofalwyr Di-dâl	Pobl sy'n darparu gofal a chymorth i'w teulu, eu cyfeillion neu eu cymdogion sy'n dioddef yn sgil anabledd, salwch corfforol neu feddyliol, eiddilwch neu gamddefnyddio sylweddau. Nid oes yn rhaid i'r gofalwyr hyn fyw gyda'r bobl maent yn gofalu amdanynt.
Gofalwyr Ifanc	Gofalwyr di-dâl hyd at 18 oed. Efallai eu bod yn rhoi gofal a chymorth i'w rhieni, i'w brodyr/chwirydd neu i aelodau eraill o'u teulu.
Cynllun Gofal a Chymorth	Mae'r ddogfen hon yn nodi'r pethau a drafodwyd yn ystod asesiad o anghenion gofal cymdeithasol a'r hyn a fydd yn digwydd o ganlyniad i'r asesiad hwnnw. Dyma gynllun y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei baratoi a'i gynnal o dan adran 54(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Cynllun Cymorth i Ofalwyr	Os oes gan ofalwyr di-dâl anghenion sy'n gymwys ar gyfer cymorth, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd statudol i

	gynllunio ar gyfer yr anghenion hynny, a'u diwallu, trwy ddarparu 'Cynllun Cymorth i Ofalwyr'. Os pennir bod gan ofalwyr di-dâl anghenion cymwys ar gyfer cymorth, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod yr anghenion hynny'n cael eu diwallu.
Eiriolaeth	Mae eiriolwyr gofal cymdeithasol yn annibynnol ar yr awdurdod lleol (y cyngor lleol) a'r GIG. Cânt eu hyfforddi er mwyn iddynt allu helpu pobl i ddeall eu hawliau, mynegi eu safbwyntiau a'u dymuniadau, a helpu i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
Atal ac Ymyrraeth Gynnar	Mae atal ac ymyrraeth gynnar yn fathau o gymorth sy'n anelu at wella canlyniadau i bobl neu atal anghenion neu risgiau rhag dwysáu. Fe'u gelwir weithiau yn wasanaethau cymorth cynnar neu'n wasanaethau ataliol.
Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014	Cyflwynodd y Rheoliadau hyn broses newydd dau gam ar gyfer delio â chwynion a sylwadau ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Maent yn sicrhau bod y broses ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yn cyd-fynd â'r Polisi a'r Canllawiau Enghreifftiol ar gyfer Pryderon a Chwynion a Gweithdrefn Gwynion y GIG, sef Gweithio i Wella.
Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid	Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn weithdrefn gyfreithiol yn y DU. Bwriad y weithdrefn hon yw diogelu pobl agored i niwed mewn lleoliadau gofal. Mae'r weithdrefn yn berthnasol i oedolion nad oes ganddynt alluedd meddyliol i gydsynio i'w trefniadau gofal ac y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid. Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn sicrhau bod modd amddiffyn pobl na allant gydsynio i'w gofal pan fydd eu trefniadau'n eu hamddifadu o'u rhyddid. Yn y dyfodol, bydd y trefniadau hyn yn cael eu disodli gan Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid.
Mwy Na Geiriau / More than words	Strategaeth a chynllun cyflawni sy'n anelu at wella ansawdd y gofal a roddir i unigolion sy'n byw mewn gwlad ddwyieithog.
Gofal ychwanegol	Pecynnau gofal cartref a roddir i unigolion sy'n byw mewn llety byw â chymorth.
Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol	Cynllun gan Lywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â hiliaeth a chyflwyno 'newidiadau ystyrlon a mesuradwy' i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Mae'r cynllun yn ceisio sicrhau y bydd Cymru yn wlad wrth-hiliol erbyn 2030.

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth	Dylid cyfeirio at gontractau ac atgyfeiriadau – cydsyniadau a lefelau gwybodaeth a gofnodwyd – dylid cysylltu hyn ag asesiadau cymesur.
Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	Mae'r term hwn yn cyfeirio at bobl ifanc nad ydynt yn cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant galwedigaethol na chyflogaeth am dâl. Efallai y bydd pobl o'r fath yn dioddef anfanteision cymdeithasol ac economaidd.
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn anelu at wella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, gan weddnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

## Atodiad B – Cwestiynau Cyffredin

### ***A oes canllawiau i'w cael ynglŷn â ffontiau, maint y testun, bylchau rhwng y testun a'r arddull gyffredinol ar gyfer ysgrifennu dogfennau gwaith?***

*Bydd gan y mwyafrif o awdurdodau lleol eu harddull fewnol eu hunain, felly dylech ddefnyddio'r arddull honno. Mae'r enghraifft isod yn ganllawiau ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyflwynir cyngor defnyddiol a chyffredinol ynglŷn ag ysgrifennu ar gyfer cyhoeddiadau.*



Canllawiau ar  
ysgrifennu ar gyfer gv

### ***A gaf wyro oddi wrth y fformat arfaethedig?***

*Mae'r canllawiau ychwanegol yn cynnig hyblygrwydd o ran y modd y gall awdurdodau lleol gynhyrchu eu hadroddiad, yn unol â'u hanghenion a'u harddull fewnol nhw eu hunain. Ond rhaid cynnwys rhai elfennau.*

*Mae'r penawdau a ddefnyddir yn y canllawiau ychwanegol hyn, ac yn [Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol](#), yn ofynion caeth, felly rhaid eu defnyddio.*

### ***Beth yw diben astudiaethau achos?***

*Mae defnyddio astudiaethau achos yn ffordd effeithiol o ddangos effeithiau neu ddod â'r gwaith a ddisgrifir yn fyw. Yn yr adrannau Asesu Perfformiad, gellir defnyddio astudiaethau achos i ddangos sut mae rhaglenni parhaus wedi bod o fudd i bobl, neu sut caiff profiadau pobl eu defnyddio i lywio blaenoriaethau parhaus.*

### ***Faint o astudiaethau achos y caniateir eu cynnwys?***

*Ni cheir cyfyngiad caeth o ran nifer yr astudiaethau achos y caniateir eu cynnwys. Cewch eich annog i ddefnyddio astudiaethau achos, ond peidiwch â mynd dros ben llestri. Yn ddelfrydol, bydd astudiaethau achos yn cyfateb i ran fechan o'r adroddiad, a dylid eu defnyddio'n ddarbodus er mwyn ychwanegu effaith at y naratif.*



### **A gaf ddefnyddio dyfyniadau / adborth yn lle astudiaethau achos?**

Mae defnyddio dyfyniadau'n ffordd ddefnyddiol o ychwanegu profiadau personol at y naratif manwl, yn enwedig yn yr adran Asesu Perfformiad. Nid oes yn rhaid eu defnyddio yn lle astudiaethau achos – gellir eu defnyddio ochr yn ochr ag astudiaethau achos. Ond wrth lunio'r adroddiad, dylai hyd yr astudiaethau achos a'r dyfyniadau gyda'i gilydd gyfateb i ran fechan o'r adroddiad a dylid eu defnyddio i ymhelaethu ar ryw bwynt.

### **Beth fyddai'n digwydd pe bawn yn defnyddio mwy o dudalennau nag yr awgrymir?**

Awgrym yn unig yw nifer y tudalennau, gyda'r nod o sicrhau y bydd yr adroddiadau'n hygyrch i gynulleidfa eang. Cewch ddefnyddio delweddau a dyluniadau, er y byddant yn ychwanegu at nifer y tudalennau. Felly, defnyddiwch eich barn orau wrth lunio'r adroddiad. Yr unig adeg y dylech ddefnyddio mwy o dudalennau nag a awgrymir yw os gallwch gyfiawnhau hynny ac os bydd yn ychwanegu at ansawdd yr adroddiad.

### **A ydych yn awgrymu cyfanswm geiriau?**

Er na nodir cyfanswm geiriau, awgrymir y dylid defnyddio oddeutu 500 gair ar bob tudalen ar gyfer cynulleidfa gyffredinol. Bydd hyn yn amrywio yn ôl y fformat, y cynnwys a'r defnydd o ddelweddau, ond nid argymhellir y dylai'r tudalennau gynnwys blociau mawr o destun. Yn hytrach, lluniwch adroddiad mwy penodol ac esboniadol.

### **Beth fydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud â'r adroddiad wedyn?**

Yn ddelfrydol, bydd yr adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ac yn cael eu hanfon at Arolygiaeth Gofal Cymru cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ariannol. Ar ôl i Arolygiaeth Gofal Cymru gael yr adroddiadau, bydd y sefydliad hwnnw yn eu crynhoi ac yn eu defnyddio yn ei waith rheoleiddio.

Yna, bydd y crynodebau hynny'n cael eu dadansoddi a'u defnyddio i lunio crynodeb o'r gwaith a wneir ledled gwahanol awdurdodau lleol.

### **Beth yw'r amserlenni ar gyfer cyhoeddi?**

Yn ôl Deddf 2014, dylid cyhoeddi'r adroddiadau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Os cesglir gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad dros y flwyddyn gyfan, dylai fod yn bosibl cyhoeddi'r adroddiad **erbyn diwedd mis Medi**, gan ddibynnu ar brosesau cymeradwyo'r awdurdod lleol. Mewn amgylchiadau arferol, ni ddylid cynhyrchu'r adroddiad ar ôl y dyddiad hwn.

Efallai na fydd rhai mathau o ddata neu wybodaeth ar gael ar y pryd, ac efallai na fydd rhai mathau o ddata'n cael eu dilysu na'u cyhoeddi cyn yr adroddiad. Pan fo'n briodol, gellir defnyddio ffigurau dangosol.

### **Beth fyddai'n digwydd pe na bai modd imi gadw at yr amserlenni cyhoeddi?**

Dylai awdurdodau lleol wneud pob ymdrech i gyhoeddi eu hadroddiadau erbyn diwedd mis Medi. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl, yn enwedig gan y bydd angen i'r Cyngor graffu ar yr adroddiad a chan y bydd angen ei gyfieithu.

Os na fydd modd i awdurdodau lleol gyhoeddi'r adroddiad erbyn diwedd mis Medi, dylid hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru a dylid cynnig dyddiad cyhoeddi disgwylidig. Fel y nodir uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio crynodebau'r adroddiadau blynyddol i lunio dadansoddiad o'r gwaith a wneir gan awdurdodau lleol. Er mwyn sicrhau y bydd y dadansoddiad hwn yn ddefnyddiol, bydd angen ei gyhoeddi cyn i awdurdodau lleol ddechrau

*Ilunio eu hadroddiadau nesaf. Felly, bydd unrhyw oedi cyn derbyn adroddiadau'r awdurdodau lleol yn effeithio ar amserlen y gwaith dadansoddi hwn.*

### **Beth yw'r amserlen ar gyfer Ilunio a chyhoeddi'r adroddiad?**

*Efallai y byddai'n ddefnyddiol dechrau'r broses ddrafftio yn ystod Chwarter 3 (Hydref-Rhagfyr) y flwyddyn y llunnir adroddiad amdani – er enghraifft, Ilunio adroddiad bras gyda rhai ceisiadau am wybodaeth. Yna, gellir defnyddio Chwarter 4 (Ionawr-Mawrth) i lenwi'r adroddiad yn llawnach, fel y bydd modd i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol allu adolygu drafft o'r adroddiad yn ystod Chwarter 1 (Ebrill-Mehefin). Efallai y bydd angen defnyddio data chwarterol i gynorthwyo i lunio'r adroddiad, ond mae'n bosibl na fydd rhai mathau o wybodaeth neu ddata ar gael tan ddiwedd y flwyddyn ariannol. Trwy baratoi ar gyfer y data hwn a thrwy wybod beth yn union sydd angen ei wneud, gellir cyflymu'r modd y defnyddir ac y dadansoddir y data. Oherwydd y gwaith paratoi hwn, efallai y bydd modd cwblhau'r adroddiad a'i gyflwyno gerbron y Cyngor cyn gwyliau'r haf, a'i gyhoeddi wedyn ym mis Medi.*

*Ar ôl i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gwblhau'r adroddiad, a phan fydd yr adroddiad yn barod i'w gyflwyno gerbron y Cyngor, gellir ei rannu gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd angen mynd ati o hyd i rannu'r adroddiad terfynol a'i gyhoeddi yn unol â'r prosesau arferol.*

### **A fydd yn rhaid i'r adroddiad fynd trwy unrhyw drefniadau llywodraethu o fewn yr awdurdod lleol ar ôl i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei gwblhau?**

*Dylid ystyried bod yr adroddiad yn adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. O'r herwydd, bydd yn rhaid i'r Gyfarwyddwr gymeradwyo'r adroddiad yn derfynol. Ar ôl i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gymeradwyo'r adroddiad, dylid ystyried bod yr adroddiad ar ei ffurf derfynol ac ni ddylid ei newid wedyn. Y Cyfarwyddwr a fydd yn cyflwyno'r adroddiad gerbron y Cyngor.*

*Bydd unrhyw waith craffu arall yn ddibynnol ar strwythur llywodraethu'r awdurdod lleol. Yn ddelfrydol, ni fydd unrhyw drefniadau llywodraethu a chraffu yn arwain at oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad.*

### **Beth fydd yn digwydd os na fyddwn wedi cyflawni'r pethau y dywedasom y byddem yn eu cyflawni?**

*Dylai'r adroddiad blynyddol fod yn adlewyrchiad gonest o gynnydd a pherfformiad yr awdurdod lleol. O'r herwydd, os na lwyddwyd i gyflawni'r nodau, dylid nodi hynny yn y sail resymegol a'r camau nesaf.*

### **Efallai y bydd ambell beth yn fy adroddiad yn berthnasol i fwy nag un pennawd adran. Ble ddylwn i gynnwys yr wybodaeth?**

*Mae'n dderbyniol i'r cynnwys fod yn berthnasol i fwy nag un adran. Mewn achosion o'r fath, cynhwyswch yr wybodaeth yn y lleoliad mwyaf addas a chyfeiriwch at y cynnwys yn yr adrannau perthnasol eraill.*

### **A yw'r adran cwynion, archwiliadau ac adolygiadau yn ymdrin â gwasanaethau Plant a gwasanaethau Oedolion?**

*Ydynt. Ond os ceir themâu gwahanol rhwng gwasanaethau Plant a gwasanaethau Oedolion, dylid eu disgrifio.*

### **A oes yna gyfyngiad ar faint o graffiau neu ddelweddau y caniateir eu defnyddio?**

*Yn yr un modd â'r astudiaethau achos, ni chyfyngir ar faint o graffiau neu ddelweddau y caniateir eu defnyddio, cyn belled â'u bod yn ychwanegu at yr adroddiad a'r neges y ceisir ei chyfleu, mewn modd defnyddiol ac ystyrion. Ni ddylid cynnwys gormod o ddelweddau a graffiau; dylid eu defnyddio'n ddarbodus i dynnu sylw at ddata neu i ychwanegu at y naratif.*

*Ni ddylid defnyddio lluniau neu ffotograffau sy'n cynnwys unigolion, oherwydd gall sicrhau'r caniatâd priodol ar gyfer defnyddio'r lluniau arwain at gryn oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad. Os ydych wedi cael caniatâd eisoes i ddefnyddio ffotograffau o'r fath yn yr adroddiad, yna gellir eu defnyddio yn ôl disgrisiwn yr awdurdod lleol.*

### **A oes modd cynnwys ffeithluniau?**

*Oes, pan fônt yn berthnasol. Ond pan ddefnyddir data i ddatblygu ffeithluniau, rhaid cynnwys ffynhonnell y data ar ffurf dolen a/neu ddisgrifiad naratif.*

### **A oes modd cynnwys clipiau fideo?**

*Oes, pan fônt yn berthnasol. Gall clipiau fideo fod yn ffordd ddefnyddiol o ychwanegu at naratif yr adroddiad. Ond bydd yn rhaid ystyried hygyrchedd y fideo, a pha un a ellir ei gyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg gydag is-deitlau.*

### **A oes yna unrhyw enghreifftiau o arferion da?**

*Daeth canllawiau'r dull newydd i rym ar gyfer adroddiadau 2024-25. O'r herwydd, nid oes yna unrhyw enghreifftiau o arferion da y gellir eu defnyddio ar hyn o bryd. Ond ceir enghreifftiau o astudiaethau achos isod (Atodiad C); ac wrth i adroddiadau gael eu cyhoeddi, bydd modd dod o hyd i enghreifftiau o arferion da.*

*Fel rhan o'r dadansoddiad, ac wrth grynhoi adroddiadau'r 22 awdurdod lleol, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru a Llywodraeth Cymru yn anelu at ddod o hyd i enghreifftiau o arferion da y gellir eu rhannu gydag awdurdodau lleol.*

## **Atodiad C – Astudiaethau Achos Enghreifftiol**

### **Astudiaeth Achos – Hwb Cymorth Cynnar/Adolygu**

Mae B yn blentyn ifanc sydd wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ddiweddar. Merch ifanc yn ei harddegau yw mam B. Roedd y fam yn cael anhawster i ofalu am B. Nid oedd yn gallu rheoli ei phroblemau iechyd difrifol ei hun ac nid oedd yn gallu delio â hanes o bryderon iechyd meddwl. Roedd yr asiantaethau proffesiynol yn pryderu'n fawr nad oedd terfynau cyson yn cael eu gosod ar gyfer B, os o gwbl. Roeddynt yn ofni nad oedd B yn cael goruchwyliaeth a gofal priodol. Ymatebodd B i hyn oll trwy ymddwyn mewn ffordd heriol iawn. Fel rhan o'r broses amddiffyn plant, symudodd y plentyn a'r fam i dŷ'r tad-cu a'r fam-gu. Yn ystod adolygiad amddiffyn plant cynnar, cytunwyd y gellid symud B i Gynllun Gofal a Chymorth, a chroesawodd y cyfranogwyr y ffaith y byddai'r cynllun yn cael ei adolygu'n fanwl gan Swyddog Adolygu profiadol.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd Cynllunio Gofal a Chymorth yn fuan ar ôl y drafodaeth, lle'r aethpwyd ati i adolygu'r cynllun yn fanwl a chyflwyno argymhellion yn ei gylch. Bu modd i fam B ddangos ei bod yn cydymffurfio â'i meddyginiaeth a'i bod wedi cael gafael ar gymorth trwy gyfrwng y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a'i bod yn gweithio gyda'r gwasanaeth allgymorth Dechrau'n Deg. Hefyd, bu modd i'r Ymwelydd Iechyd gynorthwyo'r teulu i gael gafael ar becyn cymorth amrywiol gyda grwpiau a rhaglenni meithrin rhieni.

Yn y cyfarfodydd adolygu, bu modd i fam B holi am drefniadau byw'n annibynnol a bu modd iddi gael cymorth i symud yn ei blaen i fyw'n annibynnol. Er mwyn sicrhau bod modd gwneud hyn yn ddiogel, lluniwyd Cynllun Teulu, gyda rhieni'r fam yn cynnig llawer o gefnogaeth allgymorth. Yn yr adolygiadau, dywedodd mam B ei bod yn croesawu'r cymorth a gafodd i'w helpu i ddeall sut roedd angen iddi roi blaenoriaeth i B.

Mae mam B yn dymuno parhau i gael cymorth gan Dechrau'n Deg a gwasanaethau allgymorth Cymorth Cynnar eraill. Mewn adolygiad diweddar, cytunwyd y gellid symud B i wasanaethau Cymorth Cynnar ac nad oedd hi angen cymorth gan y Gwasanaethau Plant mwyach. Bydd Cymorth Cynnar yn parhau i gynnig help ar ffurf cynlluniau diogelwch a chymorth iechyd meddwl dilynol.

### **Astudiaethau Achos – Lab7**

Mae dau berson ifanc, y bu'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid yn gweithio gyda nhw, wedi llwyddo i gael dirymu eu Gorchmynion Atgyfeirio 12 mis yn gynnwys oherwydd eu gwaith caled, eu hymgysylltiad a'r cynnydd a wnaethant. Gweithiodd staff y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid mor dda gyda'r ddau ohonynt nes peri i'r ddau riant ganmol aelodau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid am eu gwaith a'u hymrwymiad. Dywedodd y rhieni eu bod yn gallu gweld newidiadau yn eu plant ar ôl sesiynau'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid, a bod eu plant yn ystyried y pethau a wnaethant ac yn myfyrio arnynt. Nododd mam un o'r bobl ifanc fod Lab7 wedi bod yn gyfle gwych i'w mab a'i fod wedi parhau i ymgysylltu â'r gwasanaeth ar ôl i gyfraniad y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuencid ddod i ben. Dywedodd mam y person ifanc arall yr hoffai wirfoddoli gyda'r gwasanaeth a chynorthwyo'r rhieni oherwydd y profiadau a gafodd hi.

(Mae Lab7 yn cynnig gweithdai creadigol a chymorth wedi'i deilwra i bobl ifanc ag iechyd meddwl gwael neu bobl ifanc sydd mewn perygl o ymddwyn yn droseddol neu'n wrthgymdeithasol.)

### **Astudiaeth Achos – Gwasanaethau Oedolion**

Mae gan T anabledau dysgu a chafodd ei atgyfeirio at y Tîm Anabledau Dysgu Oedolion gan ei fod wedi bod gartref drwy gydol COVID-19 a chan nad oedd yn siŵr pa gamau i'w cymryd nesaf. Ar ôl sawl cyfarfod, ac ar ôl meithrin perthynas gyda T, dysgwyd ei fod yn awyddus i wirfoddoli mewn rhyw ffordd.

Cafwyd trafodaeth bellach gyda T ynglŷn â'r math o waith yr hoffai ei wneud yn y dyfodol, a soniodd am weithio mewn warws. Cysylltodd y gwasanaeth â'r British Heart Foundation gan fod y mudiad hwnnw'n hysbysebu am Gynorthwyr Warws Gwirfoddol.

Aeth y gwasanaeth ati i helpu T i lenwi'r ffurflen gais gan ei fod yn cael anhawster i ddarllen ac ysgrifennu. Trefnwyd diwrnod blasu ar gyfer T a nodwyd pa fysiau a fyddai'n ei alluogi i gyrraedd y lleoliad.

Er mwyn i T allu gwirfoddoli yn y warws, rhaid oedd iddo gwblhau cwrs iechyd a diogelwch mewnol a chwrs codi a chario ar-lein. Gyda rhywfaint o gymorth, llwyddodd T i basio'r ddau gwrs.

Ar y dechrau, roedd T yn mynd i warws y British Heart Foundation un diwrnod yr wythnos. Roedd T wir yn mwynhau ei amser yn y warws. Gwelwyd gwahaniaeth enfawr yn ei hyder a'r ffordd roedd yn cyfathrebu, a llwyddodd i ddatblygu perthynas dda gyda'r staff. Mae T bellach yn gwirfoddoli 3 diwrnod yr wythnos ac mae'n hapus iawn yno.